

# Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones  
Prif Weithredwr – Chief Executive  
CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices  
LLANGFNI  
Ynys Môn - Anglesey  
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500  
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO	PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE
DYDD MAWRTH, 12 EBRILL 2016 am 2.00 o'r gloch	TUESDAY, 12 APRIL 2016 AT 2.00 pm
YSTAFELL BWYLLGOR 1 SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGFNI	COMMITTEE ROOM 1 COUNCIL OFFICES LLANGFNI
Swyddog Pwyllgor	Shirley Cooke 01248 752514 Committee Officer

## **AELODAU / MEMBERS**

Cynghorwyr / Councillors:-

### **Annibynnol / Independent**

D R Hughes (Cadeirydd/Chair), W T Hughes, Richard Owain Jones a  
Dafydd Rhys Thomas

### **Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith, Carwyn Jones, Alun W Mummery (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Dylan Rees

### **Plaid Lafur Cymru / Wales Labour Party**

Sedd Wag/Vacant Seat

### **Heb Ymuno / Unaffiliated**

R.Ll.Jones

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion  
addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales) and  
Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)  
Mr Gerallt Llewelyn Jones ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Mentor Môn)**

# R H A G L E N

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror, 2016.

4 **DOGFEN PARTNERIAETH POLISI A RÔL SGRIWTINI YN MONITRO'R PARTNERIAETHAU** (Tudalennau 9 - 22)

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Swyddog Effaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Swyddog Sgrwtini.

5 **CYMUNEDAU'N GYNTAF** (Tudalennau 23 - 58)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanethau Tai.

6 **DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD/IS-GADEIRYDD**

Derbyn adroddiad llafar gan y Cadeirydd/Is-Gadeirydd.

7 **RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 59 - 60)

Cyflwyno'r Rhaglen Waith gan y Swyddog Sgrwtini.

## PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2016

- YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Derlwyn Rees Hughes (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Alun Wyn Mummery (Is-gadeirydd)
- Y Cynghorwyr John Griffith, Carwyn Jones, Richard Owain Jones a Dylan Rees.
- Mr Keith Roberts (yn cynrychioli'r Eglwys Gatholig)
- WRTH LAW:** Prif Weithredwr,  
Prif Weithredwr Cynorthwyol (CT),  
Prif Weithredwr Cynorthwyol (AM),  
Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 5)  
Pennaeth Dysgu (ar gyfer eitemau 4 a 6)  
Prif Swyddog Ieuenctid (EW) (ar gyfer eitem 4)  
Rheolwr Strategaeth a Datblygu Tai (LR) (ar gyfer eitem 5)  
Rheolwr Datblygu Economaidd (APD) (ar gyfer eitem 7)  
Swyddog Sgriwtini (GR),  
Swyddog Pwyllgor (MEH).
- YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Robert Llewelyn Jones, Dafydd Rhys Thomas  
Y Cynghorydd Aled M Jones – Aelod Portffolio (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)
- Pennaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol (ar gyfer eitem 7)
- HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd y Cyngor)
- Y Cynghorwyr Lewis Davies, Ann Griffith, Llinos M Huws, R Meirion Jones, Bob Parry OBE, Peter S Rogers
- Mrs Sasha Davies (Cyfarwyddwr Strategol – Economi a Lle),  
Cynor Bwrdeistref Sirol Conwy (ar gyfer Eitem 7).

---

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodir uchod.

#### 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 3 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar:

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd, 2015.
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd, 2015.

### 4 SICRHAU GWASANAETHAU CYNALIADWY AC EFFEITHLON I'R DYFODOL: TRAWSNEWID Y GWASANAETH IEUENCTID

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Dysgu mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Prif Swyddog Ieuenctid fod Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cymru am 2014-2018 yn cydnabod yr angen i'r gwasanaeth barhau i fod yn wasanaeth addysgol strategol yn hytrach na bod yn rhan o'r ddarpariaeth hamdden. O fewn y strategaeth mae pwyslais cynyddol ar leoli gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion i gefnogi pobl ifanc i aros mewn addysg a hyfforddiant ffurfiol. Mae'r strategaeth yn cydnabod tri maes penodol a amlygwyd yn yr adroddiad fel rhai y dylid canolbwyntio gwasanaethau arnynt.

Dywedwyd bod y Pwyllgor Gwaith, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2015, wedi rhoi caniatâd i'r Gwasanaeth Ieuenctid gynnal ymgynghoriad ar Fodelau Darparu i'r Dyfodol. Roedd canfyddiadau'r ymgynghoriad wedi'u hatodi wrth yr adroddiad. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad mae'r opsiynau i'w hystyried yn cynnwys:-

- Penodi gweithwyr llawn amser a leolir ym mhob ysgol uwchradd i gyflawni ystod o flaenoriaethau;
- Strwythur llai o glybiau, i'w rhedeg gan Weithwyr Ieuenctid yr Ysgolion a thîm llai o staff rhan amser;
- Y posibilrwydd o helpu cymunedau pentrefi llai i redeg clybiau ieuenctid gwirfoddol, y byddai'r gwasanaeth ieuenctid yn eu cefnogi ond nid yn eu cyllido;
- Ymestyn rôl y Gweithiwr Prosiect Alcohol i gynnwys materion Camddefnyddio Sylweddau, a'r camfanteisio rhywiol cysylltiedig sy'n deillio o'r gamdriniaeth hon;
- Gweithio gyda'r Adran Addysg i ddatblygu'r ysgolion i gymryd mwy o gyfrifoldeb am Ddatblygu Achredu;
- Bod swydd hanner amser yn cael ei chreu ar gyfer Gweithiwr Ymgysylltu i weithio gyda phobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant, a gaiff ei hariannu drwy Grant Ymgysylltu a Datblygu. Adolygu hyn ymhen dwy flynedd i benderfynu a oes angen adolygu'r gwasanaeth ieuenctid ymhellach i gynnwys y gwaith hwn yn y ddarpariaeth graidd, yn hytrach na gwaith arall a gyllidir gan grant.

Dywedodd y Prif Swyddog Ieuenctid mai Ynys Môn a Gwynedd sydd wedi cadw'r rhwydwaith mwyaf o glybiau gwledig bach drwy Gymru, ond y bu gostyngiad o 17% yn y niferoedd sy'n mynychu clybiau ieuenctid rhwng 2013/14 a 2014/15. Byddai hyn ynddo'i hun wedi bod yn yrrwr ar gyfer adolygu'r modd y mae'r awdurdod yn ymgysylltu â phobl ifanc, ac mae wedi ysgogi'r gwasanaeth, drwy waith y Bwrdd Trawsnewid, i ddechrau'r ailstrwythuro drwy ymgynghori'n eang â phobl ifanc, a gofyn iddynt pa wasanaeth sydd ei angen arnynt ar gyfer y dyfodol. Bydd angen



cyplysu hyn â rhaglen yr Awdurdod o nodi blaenoriaethau tra'n gweithredu rhaglen helaeth o arbedion effeithlonrwydd.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y prif faterion a ganlyn:-

- Barn a gofynion pobl ifanc yw'r ystyriaethau pwysicaf o fewn y Gwasanaeth Ieuencid;
- Holwyd faint o bobl ifanc sy'n mynychu Clybiau Ieuencid gwledig ar yr Ynys. Ymatebodd y Prif Swyddog Ieuencid bod gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n mynychu Clybiau Ieuencid gwledig yn peri pryder a rhagwelwyd y bydd angen ystyried cau 4 o Glybiau Ieuencid eraill eleni;
- Holwyd am y posibilrwydd o ailgyflwyno'r Bws Allgymorth ar gyfer pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig fel y gallant fynychu Clybiau Ieuencid yn eu dewis ardal. Ymatebodd y Prif Swyddog Ieuencid nad oedd y Bws Allgymorth wedi bod yn weithredol yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â'r cyfleuster. Dywedodd hefyd ei bod yn ymddangos yn ystod yr ymgynghoriad nad oedd pobl ifanc yn ystyried bod Bws Allgymorth yn flaenoriaeth iddynt o gymharu â mynychu Clwb Ieuencid;
- Ystyriwyd y dylai'r Gwasanaethau Ieuencid fod yn darparu costiau ar gyfer gwasanaeth sy'n seiliedig ar arbedion o ddim mwy nag 20%, a hynny er mwyn lleddfu effaith unrhyw newidiadau ar grwpiau bregus;
- Holwyd a oes unrhyw ddyblygu o ran y gweithgareddau a gynigir gan Cymunedau'n Gyntaf yn yr ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf dynodedig a'r rheini a gynigir gan y clybiau ieuencid lleol. Ymatebodd y Prif Swyddog Ieuencid y bydd pobl ifanc dros 16 oed yn cael cynnig gweithgareddau gan Cymunedau'n Gyntaf yn unig o fewn yr ardaloedd dynodedig hynny;

**PENDERFYNWYD argymhell i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn cymeradwyo'r adroddiad, yn amodol ar bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi barn y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio bod y costiau ar gyfer y gwasanaeth yn cael eu seilio ar arbedion o hyd at 20%, a hynny i gyfyngu effaith unrhyw newidiadau ar grwpiau bregus.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

## **5 ASESIAD O ANGHENION LLETY SIPSIWN A THEITHWYR YNYS MÔN A GWYNEDD 2016**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Rheolwr Strategaeth a Datblygu Tai fod cynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (yr Asesiad) yn ofyniad statudol er mwyn canfod nifer y Sipsiwn a Theithwyr sydd angen lleiniau yn awr neu dros y 5 mlynedd nesaf (anghenion preswyl). Mae'r Asesiad hefyd yn pwysu a mesur yr angen am safleoedd tramwy i Sipsiwn a Theithwyr sy'n pasio drwy ardal yr awdurdod lleol ond sydd â'u prif breswylfa yn rhywle arall. Mae'r astudiaeth wedi cydymffurfio'n llawn â chanllawiau statudol gan Lywodraeth Cymru. Fel yr argymhellwyd yn y canllawiau, sefydlwyd Grŵp Llywio gydag Aelodau a Swyddogion o Gyngor Gwynedd a

Chyngor Sir Ynys Môn, ynghyd ag aelodaeth o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r Grŵp wedi cyfarfod yn rheolaidd i oruchwylio'r astudiaeth. Fel sy'n ofynnol, roedd y dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn yr asesiad yn cynnwys cyfweiliadau un-i-un gyda Sipsiwn a Theithwyr, data eilaidd gan gynnwys cofnodion o'r cyfrifiad a chofnodion addysg, ynghyd â manylion am wersylloedd anawdurdodedig a oedd wedi digwydd yn ardal yr astudiaeth. Roedd yr argymhellion ar gyfer ardaloedd Gwynedd ac Ynys Môn wedi eu cynnwys yn rhan 6.2 Atodiad 1 sydd ynghlwm wrth yr adroddiad. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr argymhellion sy'n berthnasol i Ynys Môn fel y nodir yn yr adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Strategaeth a Datblygu Tai ei bod wedi ymweld â'r teithwyr ar safle Ffordd Pentraeth ar sawl achlysur a'i bod wedi siarad â phobl sy'n byw ar y safle. Fodd bynnag, o'r pedair aelwyd ar y safle, dim ond 2 berson lenwodd yr holiadur yr oedd Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylid ei ddefnyddio yn y broses asesu.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y prif faterion a ganlyn:-

- Mynegwyd pryderon dwys nad ymgynghorwyd digon gyda'r gymuned leol, busnesau lleol a'r gymuned sipsiwn a theithwyr;
- Ystyriwyd nad oedd y Cyngor Sir wedi ceisio cael unrhyw gydlyniant cymunedol gyda'r gymuned leol a'r gymuned sipsiwn a theithwyr i ddeall eu hamrywiol anghenion ac i integreiddio â'r gymuned;
- Mae'r trigolion ar safle Ffordd Pentraeth wedi dweud nad ydynt yn dymuno newid eu ffordd o fyw;
- Mae'r adroddiad a drafodwyd yn y cyfarfod yn dweud bod angen 4 llain; mae cyfanswm o 7 o garafanau ar safle Ffordd Pentraeth;
- Nid yw trigolion safle teithwyr Ffordd Pentraeth yn ymwybodol o'r cynrychiolydd Sipsiwn a Theithwyr ar Grŵp Llywio Gwynedd ac Ynys Môn; roeddent wedi dweud wrth eu Cyngorydd Lleol y byddent yn hoffi gweld un o drigolion safle Ffordd Pentraeth yn cael ei enwebu i wasanaethu ar y Grŵp Llywio;
- Byddai Safle yn ne Ynys Môn yn cael ei ffafrio gan drigolion safle Ffordd Pentraeth os yw'r Awdurdod yn bwriadu dynodi safle fel safle parhaol i sipsiwn / teithwyr;
- Ystyriwyd nad oedd digon o ddata wedi cael ei gasglu oddi wrth deithwyr yr oes newydd ar Ynys Môn gan mai dim ond dau holiadur a gwblhawyd. Ymddengys bod Cyngor Gwynedd wedi llwyddo i gael mwy o ddata o holiaduron gan fod ganddynt safle parhaol i sipsiwn a theithwyr yn Llandygai. Dywedwyd nad oedd trigolion eiddo cyfagos i'r safle sipsiwn a theithwyr ar Ffordd Pentraeth wedi cael cyfle i lenwi unrhyw holiadur;
- Mae dyfarniad yr Uchel Lys yn 2009 yn amlygu bod rhaid cynnal 'asesiad o anghenion'. Ystyriwyd ei bod yn hanfodol cynnal 'asesiad o anghenion' ar safle cilfan Ffordd Pentraeth.

Yn eu hymateb dywedodd y Swyddogion bod Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr os oes angen wedi'i nodi. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, o gofio'r patrwm o wersylloedd anawdurdodedig a gwersylloedd dros dro, mae'n amlwg bod angen safle parhaol a dau safle dros dro ar Ynys Môn. Felly mae'r Asesiad o Anghenion yn adlewyrchu'r gofynion cyfredol ar yr Ynys. Derbyniwyd nad oedd digon o

ymgyngori wedi digwydd ynghylch dewis safleoedd, ond mae'r ddogfen a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn canolbwyntio ar adnabod angen yn hytrach nag ar ddewis safleoedd. Felly bydd angen i fersiwn ddrafft Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn adnabod safleoedd parhaol a dros dro i sipsiwn a theithwyr ar Ynys Môn.

Adroddodd y Prif Weithredwr fod y Pwyllgor Gwaith, yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2016, wedi gohirio rhoi sylw i'r adroddiad er mwyn caniatáu ymgyngoriad ynghylch adnabod a datblygu safleoedd addas i sipsiwn a theithwyr. Cynhelir sesiwn frifio i'r etholedig mewn perthynas â safleoedd i sipsiwn a theithwyr. Trefnir cyfres o gyfarfodydd hefyd ar gyfer Cynghorau Tref / Cymuned yn ymwneud â'r gwahanol opsiynau a gyflwynwyd gan y Cyngor Sir. Bydd trigolion a busnesau lleol hefyd yn cael cyfle i fynegi eu sylwadau mewn sesiynau 'galw i mewn' yn eu cymunedau.

Dywedodd ymhellach fod yr amserlen ar gyfer yr asesiad o anghenion llety sipsiwn a theithwyr yn hynod o dynn gan fod raid ei gwblhau a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 26 Chwefror, 2016 ac i sicrhau y gellir cynnwys y manylion yn y Cynllun Datblygu Lleol o fewn yr amserlen a gyhoeddwyd. Mae'n rhaid sicrhau yr ymgyngorwyd yn ddigonol gyda chymunedau lleol; bydd angen asesu'r ymatebion i'r ymgyngoriad a bydd angen i'r Pwyllgor Gwaith eu trafod wedyn.

Yn dilyn trafodaethau manwl, **PENDERFYNWYD argymhell i'r Pwyllgor Gwaith fod yr adroddiad ar 'Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd 2016' yn cael ei gymeradwyo, yn amodol ar nodi pryderon y Pwyllgor ynghylch lefel yr ymgyngori sydd wedi digwydd gyda'r gymuned Sipsiwn / Teithwyr, trigolion lleol a'r Cynghorau Tref / Cymuned.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

## **6 GRŴP ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION – DIWEDDARIAD**

Cyflwynwyd – adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Dysgu a'r Swyddog Sgrwtini mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Pennaeth Dysgu fod y Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion wedi cael ei sefydlu ar 21 Tachwedd, 2012 gan y Pwyllgor Sgrwtini Addysg a Hamdden yn dilyn argymhellion a wnaed gan Estyn ar ansawdd y Gwasanaeth Addysg i blant a phobl ifanc ar Ynys Môn. Nod y grŵp yw cynorthwyo'r Gwasanaeth Addysg i wella perfformiad ysgolion ar yr Ynys, drwy gynyddu a datblygu atebolrwydd lleol am berfformiad ysgolion a gwella gwybodaeth aelodau lleol am yrwyr perfformiad allweddol a'r heriau sy'n wynebu ysgolion ar Ynys Môn. Gyda sefydlu strwythur newydd ar gyfer Pwyllgorau Sgrwtini yn ystod mis Mai 2013, cytunwyd y byddai Aelodau'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio yn parhau â gwaith y Grŵp Adolygu Ysgolion.

Dywedodd bod yr Uwch Reolwr Safonau Ysgolion a Chynhwysiad yn rhoi arweiniad i'r Panel ynghylch pa ysgolion y dylid eu gwahodd i ymddangos ger eu bron. Roedd rhestr o'r ysgolion a oedd wedi ymddangos gerbron y Panel yn ystod 2015 i'w gweld yn yr adroddiad. Mae'r Pennaeth, Cadeirydd y Llywodraethwyr a'r

Ymgynghorydd Her GwE perthnasol (Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol) yn cael eu gwahodd i fynychu'r cyfarfod o'r Panel i drafod safonau cyrhaeddiad, materion cynhwysiad, presenoldeb a rheoli adnoddau sy'n cynnwys agweddau ariannol a rheolaethol. Po leiaf yw'r ysgol, y mwyaf tebygol ydyw y bydd ei pherfformiad yn amrywio, a gallai'r perfformiad hwn amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn ac effeithio ar ei chategoreiddiad cyffredinol o fewn y model cenedlaethol. Mae lleiafrif o ysgolion yn cael anawsterau o ran cynnal lefelau staffio cyson o ganlyniad i gyfnodau mamolaeth ac absenoldebau arbennig, ac mae effeithiau hynny'n fwy amlwg yn yr ysgolion llai.

Yn dilyn penodi swyddog newydd i'r swydd Uwch Reolwr Safonau Ysgolion a Chynhwysiad, bydd nifer o ysgolion yn cael eu gwahodd i ymddangos gerbron y Panel rhwng mis Ionawr 2016 a Rhagfyr 2016.

Fel yr Aelod Portffolio (Addysg), dywedodd y Cynghorydd K.P. Hughes mai ei nod yw codi safonau addysg ar Ynys Môn. Mae nifer o ysgolion ar yr Ynys wedi gwella ac mae gwaith y Grŵp Adolygu Ysgolion wedi cynhyrchu tystiolaeth bod y gwasanaeth wedi gwella.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y prif faterion a ganlyn:-

- Holwyd a oedd anawsterau wrth recriwtio Penaethiaid ar Ynys Môn ac a oedd digon o athrawon yn dod trwodd sy'n dymuno cael eu hystyried i fod yn Benaethiaid. Ymatebodd y Pennaeth Dysgu fod anawsterau gyda recriwtio Penaethiaid ac y gellir priodoli'r rheini i'r pwysau sy'n gysylltiedig â'r swydd a'r ffaith y byddai angen, o bosib, i'r Pennaeth ddysgu dosbarthiadau am 90% o'r amser hefyd;
- Holwyd hefyd am ysgolion yn dysgu o brofiadau ysgolion eraill ac ymgorffori arferion da gan ysgolion sy'n perfformio'n dda. Ymatebodd y Pennaeth Dysgu fod ymgorffori arferion da a rhannu profiadau rhwng ysgolion yn hollbwysig h.y. mae ysgol sy'n perfformio'n dda o ran 'sgiliau ysgrifennu' yn gallu cael cymorth gan GwE, i ddatblygu pecynnau cymorth i ysgolion eraill.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad mewn perthynas â'r gwaith a wneir gan y Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion.**

**GWEITHREDU: Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn adroddiad diweddar bob blwyddyn.**

## **7 TÎM YMGYSYLLTU RHANBARTHOL – TREFNIADAU I'R DYFODOL**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol mewn perthynas â'r uchod.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Mrs Sasha Davies, Cyfarwyddwr Strategol (Economi a Lle), Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Rhoddodd Mrs Davies gyflwyniad ar y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol fel yr Uwch Swyddog Cyfrifol am Ffrwd Waith yr UE. Nodwyd mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw'r Corff Arweiniol yn ystod rhaglen 2014/2020. Dosbarthwyd copi o'r cyflwyniad i'r Aelodau yn y cyfarfod.

Adroddwyd y bydd y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol mewn sefyllfa i sicrhau bod modd i'r holl weithgareddau arfaethedig weithio'n integredig ar draws yr holl ffrydiau ariannu. Bydd yn nodi hefyd a oes darpariaeth gyfatebol eisoes yn bodoli neu'n cael ei datblygu. Bydd y Tîm yn gallu gweithio'n strategol ac yn llyfn gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'i ffrydiau gwaith, yn ogystal â sefydliadau eraill ar draws y rhanbarth er mwyn hwyluso dealltwriaeth o'r cynigion am gyllid Ewropeaidd, ac yn benodol sut maent yn cyfrannu at y weledigaeth o fuddsoddiadau dwys ac integredig sy'n targedu blaenoriaethau strategol yn y rhanbarth.

Mae'r Cynllun Busnes yn cael ei asesu gan SCEC ar hyn o bryd a disgwylir iddo gael ei gymeradwyo yn ystod mis Chwefror 2016.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a diolch i Mrs Sasha Davies am ei chyflwyniad i'r Pwyllgor.**

**GWEITHREDU: Bod cyfarfod o'r Pwyllgor hwn yn derbyn diweddariad ar y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol yn y dyfodol.**

## **8 DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD / IS-GADEIRYDD**

Dywedodd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd eu bod yn mynychu cyfarfodydd misol Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 25 Chwefror, 2016.

Atgoffwyd yr aelodau i gysylltu â'r Swyddog Sgriwtini os ydynt yn dymuno cynnwys unrhyw eitem ar Raglen y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

## **9 RHAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd – y Rhaglen Waith ddrafft.

Amlinellodd y Swyddog Sgriwtini yr eitemau ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio:-

Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol  
Trawsnewid Gwasanaethau Diwylliannol  
Dogfen Bolisi – Partneriaethau

Dywedodd y Swyddog Sgriwtini ymhellach y byddai angen trafod adroddiad ychwanegol yn y cyfarfod nesaf, sef Adroddiad Blynyddol Cymunedau'n Gyntaf. Cytunwyd y dylai'r cyfarfod ddechrau am 2 o'r gloch.

**PENDERFYNWYD derbyn y Rhaglen Waith ddrafft.**

Daeth y cyfarfod i ben am 5:20 p.m.

**Y CYNGHORYDD D. R. HUGHES  
CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

120416F4

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i'r:	PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO
Dyddiad:	12 Ebrill, 2016
Pwnc:	GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH – Dogfen Bolisi a rôl sgrwtini wrth fonitro partneriaethau
Aelod(au) Portffolio:	Cyng Alwyn Rowlands, Aelod Portffolio (Trawsnewid, Perfformiad, Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol)
Pennaeth Gwasanaeth:	Annwen Morgan, Prif Weithredwr Cynorthwyol
Awduron yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:	Anwen Davies, Swyddog Effaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol 01248 752578 <a href="mailto:AnwenGDavies@ynysmon.gov.uk">AnwenGDavies@ynysmon.gov.uk</a> Geraint Roberts, Swyddog Sgrwtini 01248 752039 <a href="mailto:GeraintWRoberts@ynysmon.gov.uk">GeraintWRoberts@ynysmon.gov.uk</a>
Aelodau Lleol:	Ddim yn Berthnasol

## A – Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau

### 1. CEFNDIR/CYD-DESTUN

1.1 Mae gweithio mewn partneriaeth wedi dod yn rhan annatod o arferion gwaith Awdurdodau Lleol ac mae tystiolaeth bod hyn wedi arwain at ddatblygu perthynas o ymddiriedaeth a galluogi datblygu fframweithiau cadarn i sicrhau canlyniadau cadarn ar gyfer ein cwsmeriaid, dinasyddion a chymunedau. Er y gall gweithio mewn partneriaeth ddod â manteision sylweddol, yn gallu ymateb i heriau cymhleth ac yn darparu hyblygrwydd, arloesedd ac adnoddau ychwanegol wrth ddarparu gwasanaethau, nid yw'n hawdd ac yn gallu cario risgiau sylweddol (yn gysylltiedig yn aml â chymhlethdod ac amwysedd) oni bai y cyflawnir hwy drwy fframwaith llywodraethu cadarn.

1.2 Gwelwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2014/15<sup>1</sup> yn crynhoi ein trefniadau llywodraethu partneriaethol fel **mater llywodraethu sylweddol**:

*“... Nid oes gan y Cyngor Fframwaith Partneriaeth ffurfiol yn ei le i roi sicrwydd bod gan yr holl bartneriaethau drefniadau llywodraethu, rheoli a pherfformiad yn eu lle i gwrdd â'u hamcanion datganedig a'u bod yn rhoi gwerth am arian mewn perthynas ag adnoddau ariannol ac eraill y Cyngor y buddsoddiwyd ynddynt...”*

Bu i Swyddfa Archwilio Cymru ddod i gasgliad yn yr Adroddiad Asesiad Corfforaethol<sup>2</sup> bod y Cyngor yn chwarae rôl amlwg mewn gweithgarwch ar y cyd ac yn cyfrannu'n dda at waith partneriaethol. Mae cydweithio a gweithio mewn partneriaeth ar bob lefel (lleol i ryngwladol) yn hanfodol i alluogi'r Cyngor i gyflawni ar ei fuddsoddiad uchelgeisiol a chreu swyddi newydd.

<sup>1</sup> Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2014/15 (dyddiedig Mai, 2015)

<sup>2</sup> Adroddiad Gwella Blynyddol 2014/15 (cynnwys Adroddiad Asesu Corfforaethol 2015), Swyddfa Archwilio Cymru Rhagfyr, 2015

1.3 Cwblhawyd adroddiad yn ddiweddar gan yr Uned Archwilio Mewnol ar drefniadau llywodraethu ein gwaith partneriaethol<sup>3</sup> sy'n cynnig gyrrwr i symud ymlaen ar rai meysydd datblygu allweddol. Bydd hyn felly'n galluogi'r Cyngor i ddatblygu ymhellach ar ei ymagwedd gorfforaethol at bartneriaethau (strategol a gweithredol, mewnol ac allanol). 'Roedd 6 argymhelliad yn gynwysiedig yn yr adroddiad awdit sydd wedi'u crynhoi ym mharagraff 3 isod.

## 2. ALINIAD GYDA BLAENORIAETHAU STRATEGOL Y CYNGOR

2.1 Manylir ar gynlluniau gwella'r Awdurdod dros dymor y Cyngor presennol hyd at 2017 yn ein Cynllun Corfforaethol<sup>4</sup> a'r Cynllun Trawsnewid<sup>5</sup> cysylltiedig. Un o brif amcanion y Cyngor ydy ymrwymo i ddatblygu partneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon sydd o ansawdd da ac yn cael eu gwerthfawrogi.

2.2 Mae ein Hunan Asesiad<sup>6</sup> yn datgan i bartneriaeth a chydweithio fod yn rhan annatod o'r ffordd mae'r Cyngor yn ceisio cyflawni ei uchelgais a'i raglen drawsnewid. Ar gyfer Cyngor o'r maint, mae'n ffordd bwysig o adeiladu capasiti ac yn syflaenol i'n dulliau o gyflawni ar gyd flaenoriaethau. 'Rydym yn credu bod gweithio mewn partneriaeth llwyddiannus yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau gwell i'n cwsmeriaid a hefyd i Ynys Môn llwyddiannus. Yn gynyddol, bydd ein llwyddiant fel Cyngor yn cael ei werthuso ar sail pa mor dda'r ydym yn gweithio gydag eraill i wella llesiant ein dinasyddion.

Mae ein gwaith trawsnewid dros y 2 flynedd diwethaf wedi gwella ein statws o fewn y teulu Cynghorau yng Nghymru ac 'rydym bellach yn chwarae rhan lawn mewn gwaith partneriaethol oddi mewn i'r fframwaith hwnnw.

## 3. SGÔP Y FFYRDIAU GWAITH PARTNERIAETHOL

Bydd ein ffrydiau gwaith partneriaethol yn cwmpasu'r elfennau a ganlyn:

3.1 Datblygu dogfen bolisi partneriaethau [**polisi**]

3.2 Datblygu teclyn partneriaethau fydd yn cynnig canllawiau ar gyfer sefydlu a datblygu partneriaethau [**teclyn**]

3.3 Llinio cofrestr gorfforaethol, ganolog o bartneriaethau [**cofrestr**]

3.4 Datblygu trefniadau monitro ar gyfer partneriaethau er mwyn cadw golwg ar ddeilliannau a materion cyllidol [**monitro ac adrodd ar berfformiad**]

3.5 Sefydlu rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu mewn perthynas ag adolygu trefniadau

<sup>3</sup> Adroddiad Archwilio Mewnol : Partneriaethau – Trefniadau Llywodraethu 003.15/16 (Chwefror, 2016)

<sup>4</sup> Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn 2013-2017

<sup>5</sup> Cynllun Trawsnewid Cyngor Sir Ynys Môn

<sup>6</sup> Adroddiad Hunan Asesiad Cyngor Sir Ynys Môn Ionawr, 2015



llywodraethu partneriaethau gan gynnwys cadw golwg ar gofrestrau risg [**sicrwydd a rheoli risgiau**]

3.6 Cynnal adolygiad blynyddol o'r partneriaethau allweddol [**adolygiad blynyddol**].

#### 4. DOGFEN BOLISI – GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

4.1 Mae gan y Cyngor brofiad helaeth o weithio mewn partneriaeth boed hynny'n lleol, rhanbarthol neu genedlaethol<sup>7</sup>.

4.2 **Gyrrwyr Allweddol:** gyda phwysau cynyddol ar arian cyhoeddus, mae'n hanfodol fod y Cyngor yn sicrhau bod canllawiau clir mewn lle ar gyfer penderfynu pa bryd y dylid sefydlu partneriaeth, pa wasanaeth(au) a deilliannau y disgwylir o unrhyw bartneriaeth a bod rheolaeth gadarn o'r berthynas er mwyn:

- ein galluogi i gyflawni ar ein Cynllun Corfforaethol a blaenoriaethau strategol. Hefyd, i wella'r profiad a chanlyniadau i unigolion sy'n defnyddio ein gwasanaethau
- tystiola gwerth am arian neu gost effeithlonrwydd yn ein buddsoddiadau i'r dyfodol a sicrhau deilliannau clir a mesuradwy
- ymateb i risgiau partneriaethol a sicrhau bod meysydd datblygu'n cael sylw
- cael eglurder ynghylch atebolrwydd a threfniadau monitro
- adnabod unrhyw sgôp i resymoli partneriaethau a bod trefn glir ar gyfer dod ag unrhyw drefniadau i ben.

4.3 Mae'r ddogfen bolisi (**ATODIAD 1**) yn canolbwyntio ar bartneriaethau ble mae'r Cyngor yn dewis cydweithio gyda chyrff eraill yn y sectorau preifat, cyhoeddus neu wirfoddol. Nid yw'n ystyried y cysylltiadau a wneir drwy'r broses gaffael.

4.4 Mae'r polisi felly'n crynhoi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ac yn ychwanegu at y datganiadau partneriaethau unigol sydd eisoes mewn bodolaeth ee Compact Ynys Môn (cytundeb partneriaeth gyda'r Sector Gwirfoddol), Siarter Gymunedol ar y cyd gyda'r Cyngorau Tref a Chymuned ar Ynys Môn.

4.5 Wrth fabwysiadau'r ddogfen bolisi partneriaethol, bu i'r Pwyllgor Gwaith<sup>8</sup> benderfynu gwahodd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio I gynnig sylwadau ar:

- Gadernid y ddogfen bolisi fel sylfaen i waith partneriaethol y Cyngor
- Fframwaith i siapio'n trefniadau monitro gan y pwyllgorau sgrwtini.

<sup>7</sup> Adroddiad Gwella Blynyddol 2014/15 (cynnwys Adroddiad Asesu Corfforaethol 2015), Swyddfa Archwilio Cymru Rhagfyr, 2015

<sup>8</sup> Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 14/03/16

## 5 RÔL SGRIWTINI O RAN MONITRO PARTNERIAETHAU

5.1 Mae gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio rôl bwysig o ran sicrhau lefel briodol o ymgysylltiad democrataidd gyda phartneriaethau statudol a strategol. Trwy ei Aelodau, mae'r Pwyllgor mewn sefyllfa dda i sicrhau bod gwaith a pherfformiad partneriaethau yn ymatebol ac yn gyson a'r blaenoriaethau allweddol yr Awdurdod ac anghenion y cymunedau lleol. Wrth gyflawni ei rôl, mae nifer o feysydd posib y gallai eu hystyried, gan gynnwys materion fel:

### Sgriwtineiddio trefniadau llywodraethu

- Pwy sy'n gyfrifol am reoli cyllid a ddyrannwyd i'r bartneriaeth a beth yw'r broses ar gyfer ymrwymo gwariant?
- A oes gan y bartneriaeth weledigaeth, nodau ac amcanion a ddiffiniwyd yn eglur? A gafodd y rhain eu datblygu mewn ymgynghoriad â'r holl randdeiliaid perthnasol?
- Sut mae'r bartneriaeth yn gwerthuso ei gweithgareddau ac yn monitro ei pherfformiad yn erbyn ei hamcanion?

### Sgriwtineiddio cyfraniad y cyngor

- Beth yw rôl y cyngor yn y bartneriaeth?
- Sut mae partneriaid yn gweld cyfraniad y Cyngor i'r bartneriaeth?
- A yw'r partneriaeth yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau allweddol ?

### Gwerthuso effeithiolrwydd cyffredinol y bartneriaeth

- A yw'r bartneriaeth yn cyflawni ei hamcanion?
- A yw'r bartneriaeth yn cwblhau prosiectau allweddol y mae'n gyfrifol amdanynt ar amser ac o fewn y gyllideb?
- Sut mae rhanddeiliaid allweddol yn gweld perfformiad y bartneriaeth?
- Sut mae gwaith y bartneriaeth yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol y Cyngor am y cyfnod 2013-2017?
- Sut caiff perfformiad y bartneriaeth ei fesur?
- Sut mae rhanddeiliaid yn gweld perfformiad / effeithiolrwydd y bartneriaeth?

### Sicrhau ymgysylltu â'r cyhoedd a phartneriaethau a strategaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd

- I ba raddau y mae'r bartneriaeth wedi ceisio ymgysylltu â chymunedau ac adlewyrchu eu barn?
- Sut mae'r bartneriaeth wedi adrodd ar strategaethau, amcanion, neu berfformiad i'r cyhoedd?
- A oes unrhyw feysydd lle gall y pwyllgor neu'r Aelodau unigol gefnogi'r bartneriaeth drwy gynnal ymgynghoriad a / neu ymchwil?

6. Mae yna nifer o bartneriaethau sy'n disgyn o fewn y diffiniad o bartneriaeth fel y nodir yn Polisi Partneriaethy Cyngor ac nid fydd yn bosib i'r Pwyllgor sgrwtineiddio pob partneriaeth oherwydd eu nifer a'u cymhlethdod. Bydd angen i'r Pwyllgor ganolbwyntio ar y partneriaethau allweddol strategol mae'r cyngor wedi nodi yn y GofrestrCorfforaethol.
7. Mae'r cwestiwn sut y bydd y Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio yn ymgymryd â'i rôl hefyd yn ystyriaeth pwysig. Gall y Pwyllgor gyflawni ei rôl naill ai drwy:
- a) Gwahodd y partner arweiniol gyda'r rhanddeiliad i gyfarfod priodol o'r Pwyllgor hwn ynghyd ag ymgorffori gwahanol bartneriaethau yn ei raglen waith flynyddol; a / neu
  - b) Sefydlu panel canlyniad sgrwtini l i ymgymryd â'r rôl yn yn debyg i'r broses a sefydlwyd gan y Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion.
8. Bydd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor hwn, gyda chefnogaeth yr uned sgrwtini, yn fuan yn poblogi'r rhaglen gwaith y Pwyllgor o fis Mai 2016 i Mai 2017. Ar hyn o bryd, gofynnir i'r pwyllgor gefnogi cynnwys partneriaethau allweddol strategol yn eu blaen rhaglen gwaith er mwyn bod sgrwtini o'r partneriaethau yn dod yn ffocws gwaith y pwyllgor ac yn datblygu a gwella gwybodaeth Aelodau yn y maes pwysig polisi yma. Ystyrir yn gynamserol i sefydlu panel canlyniad sgrwtini ar hyn o bryd, ond dylid eu adolygu erbyn dechrau flwyddyn ariannol 2017/18.

## 9 ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio:

- 1.1 Gyflwyno sylwadau ar gadernid y Ddogfen Polisi Partneriaethau ( Atodiad 1 i'r adroddiad hwn).
- 1.2 Cadarnhau bod tasg o sgrwtineiddio partneriaethau yn cael eu gyflawni yn cychwynnol drwy ymgorffori'r gwaith yn blaen rhaglen gwaith y Pwyllgor. Trefniadau i'w wneud i adolygu effeithiolrwydd o'r dull yma o weithio ar ddiwedd y flwyddyn ariannol cyfredol ( yr adolygiad i gynnwys ystyriaeth o rhinwedd sefydlu panel canlyniad sgrwtini).

<b>B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?</b>
Ddim yn Berthnasol.

<b>C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?</b>
Ddim yn berthnasol.

<b>CH – A ydy'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?</b>
--

Ydy.

<b>D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?</b>
Dim yn hysbys.

<b>DD – Pwy wnaethoch chi ymgynghori â nhw?</b>		<b>Beth oedd eu sylwadau?</b>
<b>1</b>	<b>Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)</b> (gorfodol)	Rhodddwyd ystyriaeth i'r Ddogfen Bolisi gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn ei gyfarfod ar 13/01/16 ac eu sylwadau wedi'u ymgorffori yn fersiwn derfynol y ddogfen.
<b>2</b>	<b>Cyllid / Adain 151</b> (gorfodol)	Cyfranodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog A151 fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Adlewyrchwyd ei sylwadau yn y ddogfen bolisi derfynol.
<b>3</b>	<b>Cyfreithiol / Swyddog Monitro</b> (gorfodol)	Dim sylwadau.
<b>4</b>	<b>Adnoddau Dynol (AD)</b>	
<b>5</b>	<b>Eiddo</b>	
<b>6</b>	<b>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)</b>	
<b>7</b>	<b>Sgriwtini</b>	Wrth fabwysiadu'r ddogfen bolisi partneriaethol, bu i'r Pwyllgor Gwaith (14/03/16) benderfynu gwahodd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i gynnig sylwadau ar: <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Gadernid y ddogfen bolisi fel sylfaen i waith partneriaethol y Cyngor</li> <li>2. Fframwaith i siapio'n trefniadau monitro gan y pwyllgorau sgrwtini.</li> </ol>
<b>8</b>	<b>Aelodau Lleol</b>	Ddim yn Berthnasol

9	<b>Unrhyw gyrff allanol / arall / eraill</b>	Gwahoddwyd sylwadau gan y cyrff canlynol ac mae'r sylwadau a dderbyniwyd wedi'u ymgorffori yn fersiwn derfynol y Ddogfen Bolisi: <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Menter Môn</li> <li>2. Medrwn Môn</li> <li>3. Grŵp Rhanddeiliaid Cynghorau Tref a Chymuned.</li> </ol>
---	--	--

<b>E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)</b>		
1	<b>Economaidd</b>	
2	<b>Gwrthdodi</b>	
3	<b>Trosedd ac Anhrefn</b>	Ddim yn Berthnasol
4	<b>Amgylcheddol</b>	Ddim yn Berthnasol
5	<b>Cydraddoldeb</b>	Ddim yn Berthnasol
6	<b>Cytundebau Canlyniad</b>	Ddim yn Berthnasol
7	<b>Arall</b>	Ddim yn Berthnasol

<b>F – Atodiadau:</b>	
Dogfen Bolisi – Gweithio mewn Partneriaeth ( <b>Atodiad 1</b> )	

<b>FF – Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):</b>	
Anwen Davies, Swyddog Effaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Geraint W Roberts, Swyddog Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW.	

## ATODIAD 1



# GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

## DOGFEN BOLISI

Lluniwyd y polisi hwn o fewn cyd-destun y dogfennau canlynol gan Gyngor Sir Ynys Môn:

1. Teclyn partneriaethau (yn cynnig canllawiau ar gyfer sefydlu a datblygu partneriaethau)
2. Cofrestr gorfforaethol, ganolog o bartneriaethau
3. Trefniadau monitro partneriaethau (er mwyn cadw golwg ar ddeilliannau a materion cyllidol)
4. Trefniadau adolygu blynyddol o bartneriaethau allweddol.

## Cynnwys

	Tudalen
1. Cyflwyniad a chyd-destun	3
2. Diffiniad o bartneriaeth	3
3. Pam gweithio mewn partneriaeth?	4
4. Meini prawf ar gyfer dewis partneriaethau	4
5. Cadw at bolisiau'r Cyngor	5
6. Trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad	5

## ATODIAD

Cynllun Corfforaethol: themau a blaenoriaethau

**Atodiad 1**

## 1. Cyflwyniad a chyd-destun

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn brofiad helaeth o weithio mewn partneriaeth boed hynny'n lleol, rhanbarthol neu'n genedlaethol<sup>1</sup>. Gyda phwysau cynyddol ar arian cyhoeddus, mae'n hanfodol fod y Cyngor yn sicrhau bod canllawiau clir mewn lle ar gyfer penderfynu pa bryd y dylid sefydlu partneriaeth, pa wasanaeth(au) a deilliannau y disgwylir o unrhyw bartneriaeth a bod rheolaeth gadarn o'r berthynas er mwyn:

- ein galluogi i gyflawni ar ein Cynllun Corfforaethol a blaenoriaethau strategol (**Atodiad1**). Hefyd, i wella'r profiad a chanlyniadau i unigolion sy'n defnyddio ein gwasanaethau
- tystioli gwerth am arian neu gost effeithlonrwydd yn ein buddsoddiadau i'r dyfodol a sicrhau deilliannau clir a mesuradwy
- ymateb i risgiau partneriaethol a sicrhau bod meysydd datblygu'n cael sylw
- cael eglurder ynghylch atebolrwydd a threfniadau monitro
- adnabod unrhyw sgôp i resymoli partneriaethau a bod trefn glir ar gyfer dod ag unrhyw drefniadau i ben.

Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar bartneriaethau ble mae'r Cyngor yn dewis cydweithio gyda chyrrff eraill yn y sectorau preifat, cyhoeddus neu wirfoddol. Nid yw'n ystyried y cysylltiadau a wneir drwy'r broses gaffael<sup>2</sup>.

Mae'r polisi hwn felly'n crynhoi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ac yn ychwanegu at y datganiadau partneriaethau unigol sydd eioses mewn bodolaeth ee Compact Ynys Môn (cytundeb partneriaeth â'r Sector Gwirfoddol), Siarter Gymunedol ar y cyd gyda'r Cyngorau Tref a Chymuned ar Ynys Môn.

## 2. Diffiniad o bartneriaeth

Mae'r term partneriaeth yn cael ei ddefnyddio fwyfwy yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac felly iddo lawer o ddiffiniadau. Yng nghyswllt y ddogfen bolisi hon, diffinir partneriaeth fel:

**Trefniant cydweithio lle mae'r partneriaid yn gyrrff annibynnol, yn cytuno i gydweithio i gyrraedd nod cyffredin o wydnwch cymunedol ac i gyflawni hynny, yn creu strwythur neu broses sefydliadol a rhaglen y cytunwyd arni.**

Felly, bydd partneriaeth yn drefniant o gydweithio a all gynnwys unrhyw un neu fwy o'r elfennau canlynol ble mae partneriaid yn:

- cytuno i gydweithio er mwyn cyflawni amcanion a deilliannau cyffredin i'r gymuned
- sefydlu strwythur newydd i gyflawni amcanion a deilliannau, a rheiny ar wahân i'w sefydliad eu hunain os oes angen
- cynllunio a gweithredu rhaglen a gytunwyd ar y cyd, yn aml gyda staff a/neu adnoddau ar y cyd
- rhannu atebolrwydd, gwybodaeth, risgiau a manteision
- o bosibl yn ofynnol gan statud i ddod at ei gilydd i ddibenion cydweithio.

Mae cydweithio'n disgrifio'r broses o greu perthynas gyda chyflenwr(wyr) yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol neu fenter cymdeithasol er mwyn darparu gwasanaethau, cynnal prosiectau neu sicrhau cyflenwadau ac offer. Mae'r manteision yn cynnwys cynllunio gwell, gwasanaethau integredig ar gyfer cwsmeriaid, mynediad at sgiliau prin neu newydd, arbedion maint, manteision cymunedol neu fanteision drwy fuddsoddiad ar y cyd er enghraifft creu swyddi neu effeithiau cadarnhaol eraill ar yr economi leol.

Ar sail y diffiniad hwn o bartneriaeth, rhestrir y partneriaethau allweddol y mae'r Cyngor yn rhan ohonynt mewn cofrestr gorfforaethol, ganolog ac adolygir y gofrestr honno'n flynyddol (**mae'r Gofrestr gyffredol ar safle We'r Cyngor**).

<sup>1</sup> Adroddiad Gwella Blynyddol 2014/15 (cynnwys Adroddiad Asesu Corfforaethol 2015), Swyddfa Archwilio Cymru Rhagfyr, 2015

<sup>2</sup> Amgylchiadau ble byddai'r Cyngor yn cynnig cyfle i ystod o gyrrff neu unigolion ddarparu eu gwasanaeth ar gyfer pwrpas penodol drwy broses gystadleuol gyda'r Cyngor yn dewis un darparwr ac yn cadarnhau'r trefniadau drwy gytundeb



### 3. Pam gweithio mewn partneriaeth?

Mae angen bod yn hollol glir o dan ba amgylchiadau mae'n briodol i'r Cyngor weithio mewn partneriaeth ag eraill a bod hynny'n cael ei ystyried mewn modd gwbl dryloyw – drwy ei fesur yn erbyn nifer o feini prawf.

Mae yna nifer o resymau pam fod gweithio mewn partneriaeth o fantais i'r Cyngor a chymunedau Môn:

- I. **Cynllunio'n strategol** – mae rhai meysydd yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau cynghorau lleol unigol a gall fod yn fanteisiol i nifer o gynghorau (ac o bosibl cyrff eraill hefyd) gydweithio er mwyn cael mwy o ddylanwad. Er enghraifft:
  - Cynghorau Gogledd Cymru'n cydweithio gyda'r Colegau Addysg Bellach oherwydd bod eu talgylchoedd hwy yn llawer ehangach nag unrhyw gyngor unigol
  - Cynghorau'r Gogledd yn cydweithio gyda phartneriaid strategol i sicrhau twf economaidd drwy ganolbwyntio ar isadeiladwaith, addysg a sgiliau a'r gadwyn gyflenwi (Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru)
  - Cynghorau Sir Ynys Môn a Gwynedd yn cydweithio i sefydlu bwrdd gwasanaethau lleol ac uned bartneriaeth ar gyfer y Gogledd Orllewin er mwyn darparu cefnogaeth strategol ar draws nifer o bartneriaethau.
- II. **Rhannu adnoddau ac arbenigedd** – mae rhai meysydd yn arbenigol ac yn fanteisiol i gyrff cyhoeddus weithio ar y cyd a rhannu adnoddau ac arbenigedd yn hytrach na gweithio ar wahân. Er enghraifft:
  - Mae codi safonau yn ein hysgolion yn gofyn am gymorth arbenigol ac yn faes anodd i'r Cyngor gyfiawnhau creu adnodd penodol ar ei gyfer oherwydd bod natur y gwaith yn newid yn gyson gyda gwahanol ysgolion angen cymorth gwahanol yn achlysurol. Gweler awdurdodau lleol y Gogledd felly'n derbyn gwasanaeth arbenigol gan wasanaeth rhanbarthol<sup>3</sup>
  - Mae rhai agweddau yn y maes Cynllunio<sup>4</sup> ble mae'n briodol i rannu adnoddau gyda chynghorau cyfagos. O ganlyniad, mae uned bolisi cynllunio ar y cyd wedi'i datblygu gyda Chyngor Gwynedd i gyflawni ar y dyletswyddau hyn.
- III. **Gweithio ar draws sectorau** – mae'n hanfodol bod y Cyngor yn gweithio'n effeithiol ar y cyd gyda phartneriaid er mwyn darparu gwasanaeth o safon uchel i drigolion yr Ynys. Er enghraifft:
  - Gwasanaethau wedi'u cynllunio ar y cyd yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. I'r diben hwn, mae'r Cyngor yn cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn sicrhau gofal cydlynus i unigolion sydd angen cefnogaeth.
- IV. **Cyd-weithio'n lleol** – mae yna gyrff cenedlaethol sydd â chyfrifoldebau ar Ynys Môn megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Prawf Cymru. Yn ogystal, mae yna gydweithio lleol eisoes yn digwydd drwy nifer o rwydweithiau fel Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol, Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori a'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned. Ble mae ein diddordebau'n cyd-fynd a ble mae cyfleoedd i gyd-weithio, mae'n gwneud synnwyr i ni weithio gyda'n gilydd er mwyn gwneud y defnydd gorau o gyllid cyhoeddus.

### 4. Meini prawf ar gyfer dewis partneriaethau

Wrth ystyried a ydym am weithio mewn partneriaeth gyda chyrff eraill, mae'n bwysig ein bod yn ystyried pob cais neu gyfle a hynny'n erbyn nifer o feini prawf. Gyda'r cyfyngiadau a phwysau ar gyllid cyhoeddus yn dwyschau, ni ddylid parhau gyda phartneriaethau oherwydd eu bod wedi bodoli'n hanesyddol. Rhaid bod yn glir pam 'rydym am barhau gydag unrhyw bartneriaeth gan sicrhau ein bod yn gweithio gyda'r cyrff mwyaf briodol. Felly, dylid mesur unrhyw bartneriaeth yn erbyn cyfres o Feini Prawf:

<sup>3</sup> GwE- Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru

<sup>4</sup> Er enghraifft creu Cynllun Datblygu Lleol

- A. **Nod** - rhaid bod yn glir beth ydy pwrpas unrhyw bartneriaeth. Dylid sicrhau bod unrhyw weithgaredd yn cyd-fynd â chyfeiriad Cynllun Corfforaethol y Cyngor gan gyfrannu at y blaenoriaethau sydd wedi'u hadnabod a'u cadarnhau gan y Cyngor Sir.
- B. **Gwerth am Arian** – yn faincnod pwysig o ran sefydlu neu benderfynu i barhau gyda'r rhan fwyaf o bartneriaethau. Fodd bynnag, bydd rhai amgylchiadau ble bydd meini prawf eraill yn bwysicach er enghraifft sicrhau gwydnwch cymunedol. Mewn amgylchiadau fel hyn, dylid egluro hynny'n glir yn y dogfennau sy'n gofyn am ganiatâd i sefydlu partneriaeth.
- C. **Gwydnwch** – mae'n hanfodol bwysig fod gwasanaethau yn wydn yn enwedig felly os ydynt yn cynnig gwasanaethau i'r cyhoedd. Dylai unrhyw bartneriaeth felly sicrhau bod eu cyfraniad yn cael ei gyflawni mewn modd sy'n cryfhau gallu'r Cyngor i gynnig gwasanaethau o ansawdd ac mewn modd dibynadwy i ddefnyddwyr gwasanaethau.
- D. **Cael mynediad at grantiau** – mae nifer cynyddol o grantiau erbyn hyn yn ei gwneud hi'n hanfodol i gyrff weithio mewn partneriaeth, er enghraifft Llywodraeth Cymru, Ewrop a chyrrff eraill. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith fod yna grant ar gael bob tro'n reswm digonol ar ei ben ei hunan i sefydlu neu ymrwymo i bartneriaeth. Yn aml, mae yna oblygiadau hir dymor i dderbyn grantiau megis – yr angen am adnoddau i gynnal y buddsoddiad gwreiddiol, oblygiadau i'r gweithlu sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chynllun wedi'i ariannu drwy grant. Mae'n hanfodol bwysig felly bod unrhyw bartneriaeth o'r fath yn gallu tystioli sut y mae'n cyfrannu at y meini prawf eraill sef nôd, gwerth am arian a gwydnwch.
- E. **Gwerth ychwanegol** - mae yna fanteision ehangach hefyd i weithio mewn partneriaeth drwy ddod ynghyd yr wybodaeth ac arbenigedd lleol, defnyddio dulliau newydd o weithio a rhannu adnoddau ac arferion da er mwyn cael y gwerth gorau o'r arian 'rydym yn wario. Mae'n bwysig ein bod yn annog mudiadau i edrych ar beth mae cyrrff eraill yn eu cynnig ac adnabod ffyrdd i gydweithio'n y ffordd fwyaf effeithlon er mwyn datblygu gwydnwch cymunedol.

## 5. Cadw at bolisiau'r Cyngor

Dylid sicrhau bod unrhyw bartneriaeth naill ai'n mabwysiadu polisiau'r Cyngor, yn mabwysiadu polisiau cyffelyb gan bartneriaid eraill neu'n datblygu polisiau sydd yn gydnaws â rhai'r Cyngor Sir. Yn arbennig, dylid sicrhau bod unrhyw bartneriaeth yn glynu wrth y polisiau canlynol:

- Strategaeth Gydraddoldeb
- Safonau'r Gymraeg
- Iechyd a Diogelwch
- Llywodraethu Gwybodaeth
- Diogelu
- Gweithlu
- Datganiad Llesiant<sup>5</sup>

## 6. Trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad

Unwaith mae'r Cyngor wedi penderfynu sefydlu neu barhau mewn partneriaeth, gan ddangos yn glir sut mae'r meini prawf wedi'u hystyried, rhaid sicrhau bod trefniadau llywodraethu a Rheoli Perfformiad yn gadarn yn eu lle a hynny cyn i'r gwaith gychwyn neu mewn amgylchiadau arbennig, o fewn 2 fis i bartneriaeth gael ei ffurfio.

Dylid sicrhau bod yr elfennau canlynol yn eu lle:

- I. **Cytundeb** – rhaid cael dogfen sy'n amlinellu'n glir yr holl bartneriaid, beth yw nôd y bartneriaeth a pha wasanaeth(au) sy'n cael eu cynnig. Gall hyn fod yn Gytundeb,

<sup>5</sup> Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Cytundeb Lefel Gwasanaeth neu Femorandwm o Gyd-ddealltwriaeth yn ddibynnol ar natur y bartneriaeth.

- II. Deilliannau clir a mesuradwy** – dylid bod yn glir o'r cychwyn pa ddeilliannau dylid eu disgwyl o waith unrhyw bartneriaeth. Ar gyfer partneriaethau sy'n bwydo mewn i Ddeilliannau Perfformiad y Cyngor neu rai a gesglir yn genedlaethol, dylid sicrhau bod y geiriad a'r modd o gasglu'r data'n gyson â'r canllawiau sydd ar gael ar gyfer y math yma o weithgaredd.
- III. Adnoddau ac ariannu** – fel rheol, bydd disgwyliad ar y Cyngor i gyfrannu at bartneriaeth boed hynny drwy staff, cyfraniad ariannol neu drwy fynychu cyfarfodyd i roi mewnbwn i'r gwaith. Dylid gosod y disgwyliadau hyn yn hollol glir cyn cytuno i gymryd rhan mewn unrhyw bartneriaeth. Mae'n bosib gall disgwyliadau partneriaeth newid dros amser ac bydd angen adolygu trefniadau'r bartneriaeth pe bai hynny'n digwydd, er mwyn cytuno i unrhyw newidiadau.
- IV. Llywodraethiant** – bydd angen trefniadau llywodraethu clir a chadarn ar gyfer unrhyw bartneriaeth. Bydd y trefniadau rheiny'n amrywio yn dibynnu ar natur y bartneriaeth a'r adnoddau bydd y Cyngor yn eu cyfrannu. Beth bynnag fo natur y bartneriaeth, dylid cael trefniadau clir i reoli'r gwaith a sicrhau y glynir wrth y cytundeb gwreiddiol. Dylid sicrhau bod yna brosesau yn eu lle i sicrhau bod y rhaglen waith yn cael ei gweithredu, bod proses glir o adnabod a lliniaru unrhyw risgiau, materion uniondeb, priodoldeb a gwerth am arian.
- V. Adroddiadau** – disgwylir derbyn adroddiad blynyddol yn egluro sut mae'r bartneriaeth wedi cyflawni yn erbyn y nŵd a'r rhaglen waith a gytunwyd arni. Dylai'r adroddiad blynyddol fod yn gymesur â natur y bartneriaeth – er enghraifft gall adroddiad un neu ddwy dudalen fod yn ddigon ar gyfer rhai partneriaethau ond byddai disgwyl adroddiad trylwyr mewn achosion eraill. Dylid cytuno ar hyn wrth sefydlu'r bartneriaeth.
- VI. Adolygiadau** – dylid adolygu'r gwerth mae'r Cyngor yn ei gael o bob un o'r partneriaethau yn achlysurol. Bydd yr adolygiad hwn yn amrywio o bartneriaeth i bartneriaeth ac yn ddibynnol ar natur y gwaith a chyfraniad y Cyngor. Dylid adolygu pob partneriaeth o leiaf unwaith bob tair blynedd a dylid cytuno ar amllder hyn gyda'r partneriaid eraill wrth sefydlu'r bartneriaeth.

## ATODIAD 1

### CYNLLUN CORFFORAETHOL 2014-2017

#### **Themau Allweddol:**

**THEMA 1:** yn broffesiynol ac yn cael ei redeg yn dda

**THEMA 2:** arloesol, yn uchelgeisiol ac yn eangfrydig

**THEMA 3:** canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinasydd a'r Gymuned

**THEMA 4:** yn gwerthfawrogi ac yn datblygu ein Pobl

**THEMA 5:** ymrwymo i Bartneriaeth

**THEMA 6:** cyflawni

#### **Blaenoriaethau:**

1. Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn
2. Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi
3. Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Ysgolion
4. Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi
5. Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd
6. Canolbwyntio ar Gwsmeriaid, Dinasyddion a Bro
7. Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu

<b>PWYLLGOR:</b>	Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio
<b>DYDDIAD:</b>	Ebrill 12, 2016
<b>TEITL YR ADRODDIAD:</b>	Adroddiad Cynnydd – Cymunedau yn Gyntaf Môn 2015-2016
<b>AWDURON:</b>	Rita Lyon - Rheolwr Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf Môn Jenny Whiston - Rheolwr Grantiau
<b>PENNAETH GWASANAETH:</b>	Shan Lloyd Williams
<b>AELOD PORTFFOLIO:</b>	Y Cyngorydd Aled Morris Jones
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b>	Rhoi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd gyda gweithredu'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn Ynys Môn

## 1. Cefndir

Cyflwynwyd Cymunedau yn Gyntaf [CG] yng Nghymru yn 2001 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru [LICC] fel rhaglen flaenllaw i wella amodau byw a rhagolygon i bobl sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig ledled Cymru. Mae bellach yn un o'r pedair rhaglen allweddol sydd gan Lywodraeth Cymru i Fynd i'r Afael â Thlodi. Y Swyddog Arweiniol ar gyfer y bartneriaeth hon yn y Cyngor yw'r Pennaeth Gwasanaethau Tai.

## 2. Aliniad gyda Blaenoriaethau Strategol y Cyngor

Mae'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn ffrwd waith allweddol sy'n cyflawni blaenoriaethau strategol y Cyngor yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2014-2017, sef:

- Adfywio ein cymunedau a datblygu ein heconomi
- Cynyddu ein hopsiynau tai a lleihau tlodi

## 3. Llywodraethu

Yr Awdurdod yw'r Corff Cyflawni Arweiniol ar gyfer gwerth £2,101,044 o gyllid am y cyfnod 1/4/2015 i 31/3/2018. Mae hyn yn cynnwys cyllid Craidd, arian ESGYN ac arian Cymunedau am Waith. Y Sefydliad Cyflawni yw Cymunedau yn Gyntaf Môn Cyf., sef cwmni cyfyngedig drwy warant ac elusen gofrestrdig. Fel y Corff Cyflawni Arweiniol [CCA], yr Awdurdod sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau llywodraethu da ac atebolrwydd ar draws gweithrediadau'r Clwstwr. Mae Cytundeb Cyfreithiol, a gychwynnodd ar 1 Chwefror 2013, wedi cael ei sefydlu rhwng yr Awdurdod a Cymunedau yn Gyntaf Môn Cyf. ar gyfer cyflawni'r Rhaglen. Mae dadansoddiad o gyllidebau 15/16 a 16/17 ar gael yn Atodiad 1. Bydd y Bartneriaeth yn cael ei hadolygu yn ystod 2016-17.

Rheolir Cymunedau yn Gyntaf Môn Cyf gan Fwrdd Cyfarwyddwyr gwirfoddol ac mae sylwedyddion wedi eu cynrychioli ar y Bwrdd hefyd, sef yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Pennaeth Gwasanaethau Tai a'r Rheolwr Grantiau o'r Gwasanaeth Cyllid (gweler Atodiad 2). Cryfhawyd y Bwrdd ers iddo gael ei sefydlu gyntaf ac erbyn hyn mae 12 o aelodau a 2 o ymgynghorwyr o wahanol gefndiroedd yn gwasanaethu arno.

Cynhelir cyfarfodydd cyswllt bob chwarter sy'n cynnwys Cadeirydd y Bwrdd, y Rheolwr Clwstwr, y Pennaeth Gwasanaethau Tai a'r Rheolwr Grantiau i adolygu cynnydd yn erbyn cyllidebau a chanlyniadau dros y chwarter blaenorol. Mae hefyd yn rhoi cyfle i drafod unrhyw faterion ac i gynllunio ar gyfer cyflawni yn y dyfodol.

Ym Mai 2013, sefydlodd yr Awdurdod Fwrdd Ymgynghorol sy'n cynnwys cynrychiolwyr yr Awdurdod a sefydliadau eraill. Cylch Gorchwyl y Grŵp yw hwyluso perthynas waith agos rhwng Cymunedau yn Gyntaf Môn Cyf a darparwyr gwasanaethau allweddol.

#### **4. Cynnydd a wnaed gan Cymunedau yn Gyntaf**

Mae Cymunedau yn Gyntaf wedi datblygu'n gyflym dros y 24 mis diwethaf a bu cynnydd yn nifer y staff a gyflogir gan y sefydliad ac yn yr arian y llwyddwyd i'w sicrhau. Ar hyn o bryd, cyflogir 30 o staff ac 'roedd trosiant y cwmni ar gyfer 14/15 ychydig dros £1.053M (gweler Atodiadau 3 a 4).

Dechreuodd craidd y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar 1 Chwefror 2013 a bydd yn rhedeg hyd at 31 Mawrth 2017 gyda'r cyllid cyfredol. Yn ogystal, sicrhawyd £296k o gyllid ESGYN a Cymunedau am Waith ar gyfer 2017/18. Mae gan y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ffocws daearyddol, gan ganolbwyntio ar y 10% o'r cymunedau mwyaf difreintiedig ar yr ynys. Mae'r ardal yn cynnwys saith ardal cynnyrch ehangach is [ACEI], sef Morawelon, Porthyfelin 1, Tref Caergybi, Maeshyfyd, Ffordd Llundain a Kingsland yng Nghaergybi yn ogystal â ward Tudur yn Llangefni. Mae pedwar o'r ACEI ymysg y 10% o'r wardiau mwyaf difreintiedig yn o leiaf un o'r categorïau ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru [MALC] ac mae pob un ohonynt ymysg y 20% mwyaf difreintiedig yn gyffredinol. Mae rhaglen Cymunedau yn Gyntaf Môn yn canolbwyntio ar 3 phrif faes canlyniad sef:

- Cymunedau Ffyniannus
- Cymunedau Dysgu
- Cymunedau Iachach

#### **5. Cyllid a sicrhawyd**

Fel cwmni cyfyngedig trwy warant ac elusen, mae'r sefydliad yn gallu sicrhau cyllid allanol ychwanegol i gefnogi cyflawni gwasanaethau Cymunedau yn Gyntaf yn yr ardal, sef arian na fyddai'r Awdurdod efallai, fel corff cyhoeddus, yn gymwys i ymgeisio amdano. Maent wedi bod yn llwyddiannus iawn yn sicrhau £183,155 (14/15), £320,655 (15/16) a £ 377,501 (16/17) o nifer o ffynonellau i gefnogi cyflawni'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Gweler Atodiad 5.

Dewiswyd Cymunedau yn Gyntaf Môn fel yr unig Glwstwr yng Ngogledd Cymru i dreialu cynllun Aelwydydd Di-waith, a elwir bellach yn ESGYN ac ers hynny, mae Cyngor Sir y Fflint wedi

ymuno hefyd. Bydd y cynllun yn darparu £473,209 o gyllid hyd at fis Mawrth 2018 i dargedu a gweithio'n benodol gydag aelwydydd lle mae oedolion wedi bod allan o waith am 6 mis neu fwy, a hynny gyda'r nod o'u cael yn ôl i waith, profiad gwaith neu hyfforddiant. Hyd yma mae'r rhaglen ESGYN wedi sicrhau bod 85 o bobl a oedd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir wedi cael swyddi.

Mae'r Academi Alwedigaethol Gymunedol wedi mynd o nerth i nerth ac erbyn hyn mae'n gallu darparu hyfforddiant achrededig i bobl 14-64 oed, gan dargedu'r rhai sydd leiaf tebygol o fynychu darpariaeth coleg prif ffrwd. Mae'n rhoi cyfle am hyfforddiant ymarferol yn y sectorau amgylcheddol, adeiladu, manwerthu, gweinyddu, gofal plant a lletygarwch, a hynny o fewn amgylchedd gwaith disgybledig, gan gynnig trefniadau mentora un-i-un er mwyn datblygu hyder a sgiliau.

Yn ddiweddar, enillodd yr Academi Alwedigaethol y wobr gyntaf yng Ngwobrau'r Sefydliad Tai Siartredig am y Fenter Gymdeithasol Orau.

Cryfhawyd gwaith yr Academi'n ddiweddar yn sgil derbyn cyllid dan y Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (VVP). Cafwyd £90,000 dros 2 flynedd i brynu peiriant torri gwair masnachol mawr o fath y gellir eistedd arno. Bydd hyn yn golygu y gall CG dendro am gontractau mwy a chynhyrchu ffrwd incwm gynaliadwy. Prynwyd 2 fan hefyd a oedd yn diweddarau'r fflyd o gerbydau.

Prynwyd peiriant cloddio bach (360) i'w ddefnyddio gan hyfforddeion a bydd yn cynorthwyo i arwain ar hyfforddiant yng Ngholeg Menai ynghylch sut i ddefnyddio peiriannau cloddio mawr. Ariannwyd hyn drwy Horizon.

Mae'r VVP wedi golygu bod 30 o bobl economaidd anweithgar wedi ymgysylltu â'r Academi, bod 25 o bobl wedi ennill cymwysterau a bod 8 o bobl wedi cael gwaith a 5 wedi cael swyddi dan hyfforddiant.

Mae Cymunedau yn Gyntaf Môn yn gweithio'n agos iawn gyda chyflogwyr i sicrhau y gellir cyfatebu'r swyddi gwag sydd ganddynt gyda'r bobl sy'n cymryd rhan yn yr Academi. Darperir yr hyfforddiant i sicrhau bod y cyfranogwyr yn barod am swyddi a'u bod yn gallu symud o'r Academi yn syth i mewn i gyflogaeth. Darperir cefnogaeth barhaus i'r cyfranogwyr i sicrhau bod y gyflogaeth yn parhau i fod yn gynaliadwy.

Mae cynhwysiant ariannol yn parhau i fod yn faes gwaith pwysig a chyfeirir pobl i 'Pantri Pobl', sef y banc bwyd. Gyda dros 4770 o brydau wedi eu darparu yn 15/16, mae mwy a mwy o bobl, gan gynnwys pobl sydd ar fudd-daliadau a phobl sydd mewn gwaith a chanddynt deuluoedd, yn cael anhawster dod o hyd i ddigon o arian i brynu bwyd. Maent yn gweithio'n galed gyda'r ysgolion i gynorthwyo i wella llythrennedd ariannol plant. Maent hefyd yn gweithio'n galed i hyrwyddo'r defnydd o Cambrian Savings and Loans (Undeb Credyd Gogledd Cymru gynt) fel y gall pobl gael mynediad i gyllid fforddiadwy yn hytrach na benthyciadau diwrnod talu.

Mae'r cais i'r Loteri Iechyd wedi llwyddo a chafwyd £230k i gyflawni gwahanol fentrau gan gynnwys ystod o weithgareddau i bobl ifanc.

Ar 1 Chwefror 2016, dechreuodd menter cyllid Ewropeaidd ar y cyd a ariennir gan LC / yr Adran Gwaith a Phensiynau o'r enw Cymunedau am Waith. CG Môn sy'n gyfrifol am gyflawni'r rhaglen dan y CCA (CSYM). Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at y bobl hynny sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur yn y Wardiau Cymunedau yn Gyntaf ac mae'n werth cyfanswm o £303,435 ac fe'i cyllidwyd hyd at 31 Mawrth 2018 gydag estyniad posibl tan 2020.

## **6. Canlyniadau clir a mesuradwy**

Mae LIC wedi datblygu Fframwaith Canlyniadau ar gyfer monitro'r cynnydd gyda chyflawni'r Rhaglen newydd, gan ddefnyddio methodoleg atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Mae yna hefyd Gynllun Cyfranogiad Cymunedol fel bod modd i'r gymuned gymryd rhan. Adroddir ar nifer o'r canlyniadau yn Atodiad 6.

## **7. Datblygu'r Sefydliad**

Yn sgil y cyllid VVP, llwyddwyd hefyd i gynhyrchu Cynllun Busnes gyfer CG Môn. 'Roedd y Cynllun Busnes yn argymhell y dylid sefydlu 3 Grŵp Ffocws sy'n cynnwys Staff a Chyfarwyddwyr. Bydd y Grwpiau Ffocws yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn y Cynllun Busnes, sef:

- Cyllid, ansicrwydd tymor hir a masnacheiddio - dod yn fwy masnachol fel sefydliad a datblygu sylfaen asedau.
- Partneriaeth a chydweithio - datblygu perthynas waith gryfach gyda sefydliadau allweddol.
- Dyluniad a chapasiti'r sefydliad - adolygiad o strwythur y sefydliad, mwy o ddirprwyo, gwell cyfathrebu a datblygiad staff.

## **8. Aliniad Strategol y Rhaglenni Trechu Tlodi**

Cymerodd CG Môn ran mewn cynllun peilot gan LC i yrru perthynas waith agosach rhwng Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf yn ystod 2015/16. Mae LIC bellach wedi alinio gweinyddiaeth y cyllid ar gyfer y 3 rhaglen hon, yn ogystal â'r rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer 2016. Bydd y broses yn awr yn caniatáu trosglwyddo hyd at 5% o gyllideb pob rhaglen unigol rhwng y gwahanol raglenni os oes tanwariant. Yn flaenorol, byddid wedi colli unrhyw danwariant ac felly bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Awdurdod ddefnyddio'r arian. Bydd Grŵp Rheoli yn cael ei sefydlu yn fewnol o fewn yr Awdurdod i reoli'r broses hon.

## **9. Argymhellion**

Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio i:

Nodi cynnwys yr Adroddiad.

Awduron yr Adroddiad: Rita Lyon, Rheolwr Clwstwr

Jenny Whiston, Rheolwr Grantiau

Dyddiad : 30 Mawrth 2016



**CYLLID CRAIDD CYMUNEDAU'N GYNTAF**

	2015/16	2016/17	CYFANSWM
CYFLOGAU	£ 507,094.00	£ 500,299.00	£ 1,007,393.00
TALIADAU RHEOLAETH	£ 31,450.00	£ 29,200.00	£ 60,650.00
HYFFORDDIANT STAFF	£ 4,609.56	£ 8000.00	12,609.56
TEITHIO STAFF A THANYSGRIFIADAU	£ 9,500.00	£ 9,500.00	19000
COSTAU ADEILADAU	£ 37,993.44	£ 39,098.00	77,091.44
CYLLIDEB Y PROSIECT	£ 38,000.00	£ 42,550.00	80550
CYNLLUN CYFRANOGIAD CYMUNEDOL	£ 15,000.00	£ 15,000.00	30000
COSTAU CCA	£ 18,553.00	£ 18,553.00	37,106

CYFANSWM	£ 662,200.00	£ 662,200.00	£ 1,324,400.00
----------	--------------	--------------	----------------

**CYMUNEDAU'N GYNTAF****CYLLID ESGYN**

	2015/16	2016/17	2017/18	CYFANSWM
CYFLOGAU	£ 99,029.70	£ 96,576.00	£ 97,581.00	£ 293,186.70
TALIADAU RHEOLAETH	£ 8,939.30	£ 5,000.00	£ 5,000.00	£ 18,939.30
HYFFORDDIANT STAFF	£ 400.00	£ 400.00	£ 400.00	£ 1,200.00
TEITHIO STAFF A THANYSGRIFIADAU	£ 3,600.00	£ 3,600.00	£ 3,600.00	£ 10,800.00
COSTAU ADEILADAU	£ 7,684.00	£ 12,223.00	£ 12,223.00	£ 32,130.00
CYLLIDEB Y PROSIECT	£ 38,953.00	£ 39,000.00	£ 39,000.00	£ 116,953.00

CYFANSWM	£ 158,606.00	£ 156,799.00	£ 157,804.00	£ 473,209.00
----------	--------------	--------------	--------------	--------------

**CYLLID CYMUNEDAU AM WAITH**

	2015/16	2016/17	2017/18	CYFANSWM
CYFLOGAU	£ 14,122.13	£ 85,580.09	£ 86,435.89	£ 186,138.10
CYFLOGAU CCA	£ 3,288.86	£ 19,930.52	£ 20,129.82	£ 43,349.20
TG	£ 3,600.00			£ 3,600
TEITHIO STAFF A THANYSGRIFIADAU	£ 600.00	£ 3,600.00	£ 3,600.00	£ 7,800.00
MARCHNATA	£ 625.00	£ 2,500.00	£ 2,500.00	£ 5,625.00
CRONFA RHWYSTR	£ 2,500.00	£ 10,000.00	£ 10,000.00	£ 22,500.00
COSTAU SYMLACH	£ 2,611.65	£ 15,826.59	£ 15,984.86	£ 34,423.10

CYFANSWM	£ 27,347.64	£ 137,437.2	£ 138,650.57	£ 303,435.41
----------	-------------	-------------	--------------	--------------

## BWRDD CYFARWYDDWYR

Swydd yr ymddiriedolwr	Enw
	John Egryn Lewis
	Kath Capstick
	Ann Kennedy
Cadeirydd y Bwrdd	James Lee MBE
	Joe Lock
Cadeirydd y Pwyllgor Personél	Keith Thomas
	John Tyrell Jones
Cyfarwyddwr Cyllid	Peter Davies OBE
	Susan Williams
	Dr Wil Roberts
	Raymond Williams
	Y Cyng. John Lee
Ymgynghorydd i'r Bwrdd	John Rhys Cwyfan Hughes
Ymgynghorydd i'r Bwrdd	John Robert Jones
Sylwedydd Prif Gorff Cyflawni	Y Cyng. Aled Morris Jones
Sylwedydd Prif Gorff Cyflawni	Shan Lloyd Williams
Sylwedydd Prif Gorff Cyflawni	Jenny Whiston

**Atodiad 3**

STRWYTHUR STAFFIO CG MÔN  
RHEOLWR CLWSTWR

SWYDDOG CYLLID A MONITRO CYDLYNYDD FFYNIANNUS

CYDLYNYDD DYSGU

RHEOLWR CYMORTH CYFLOGAETH

RHEOLWR YR ACADEMI HYFFORDDI

**SWYDDOG CYNHWYSIAD  
ARIANNOL**

*MENTOR* **MENTOR** *MENTOR* **MENTOR** *SWYDDOG YMGYSYLLTU*  
*OEDOLION* **POBL IFANC** *ESGYN* **ESGYN** *Â CHYFLOGWYR*

BRYSBENNU

ARWEINYDD TÎM MENTORA

SWYDDOG GWEINYDDOL  
YR ACADEMI

GWEITHIWR  
IEUENCTID

CYNORTHWY-YDD CYLLID

GWEINYDDWR

GWEINYDDWR ESGYN

MENTOR  
SAERDANHYFFORDDIANT

KIDZINC (MENTOR GOFAL PLANT)

**CYFRIFON CG MÔN 2014/15**

## CYLLID ALLANOL A SICRHAWYD

	2014/15	2015/16	2016/17	CYFANSWM
LOTERI IECHYD	£ 31,687.00	£ 97,860.00	£ 103,000.00	£ 232,547.00
MAGNOX - SAER	£ 42,590.00	£ 42,020.00	£ 5,743.42	£ 90,353.42
MAGNOX - GYRRU / CANOLFAN CSCS	£ 0.00	£ 23,918.00	£ 37,992.00	£ 61,910.00
CSYM - VVP (PROSIECTAU AMGYLCHEDDOL)	£ 0.00	£ 70,000.00	£ 20,000.00	£ 90,000.00
CSYM - VVP (CYNLLUN BUSNES)	£ 0.00	£ 5,000.00	£ 0.00	£ 5,000.00
CSYM – ASTUDIAETHAU VVP		£ 5,000.00		5000
PLANT MEWN ANGEN	£ 4,500.00	£ 0.00	£ 0.00	£ 4,500.00
GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID	£ 9,000.00	£ 9,000.00	£ 2,000.00	£ 20,000.00
CYFENTER – SIOP YN Y DRE	£ 24,942.00	£ 0.00	£ 0.00	£ 24,942.00
CYFENTER – KIDZINK	£ 19,585.00	£ 0.00	£ 0.00	£ 19,585.00
NIACE	£ 9,379.00	£ 0.00	£ 0.00	£ 9,379.00
ALWMINIWM MÔN	£ 7,000.00	£ 0.00	£ 0.00	£ 7,000.00
CSYM – CYNHWYSIAD ARIANNOL	£ 14,872.00	£ 15,382.00	£ 15,382.00	£ 45,636.00
LIC – PDG	£ 16,600.00	£ 25,138.00	£ 0.00	£ 41,738.00
PRIFYSGOL BANGOR	£ 3,000.00	£ 0.00	£ 0.00	£ 3,000.00
WCVA – CYNHWYSIAD GWEITHREDOL	£ 0.00	£ 0.00	£ 55,947.00	£ 55,947.00
CYFANSWM	£183,155.00	£293,318.00	£240,064.42	£716,537.42

### Dangosyddion Perfformiad Cymunedau yn Gyntaf

Gellir gweld rhestr lawn o'r holl ddangosyddion y mae'n rhaid adrodd arnynt i Lywodraeth Cymru ar gais drwy Ffynnon ond mae crynodeb o'r dangosyddion allweddol i'w weld isod.

Dangosydd	Targed i Ch 4 15/16	Cyflawnwyd i Ch 4 15/16
<b>Cymunedau Ffyniannus - Helpu pobl i ddatblygu sgiliau cyflogaeth a dod o hyd i waith</b>		
Nifer y bobl a ofynnodd am gyngor a chymorth	50	79
Nifer y bobl a gafodd waith	5	27
Nifer y bobl a enillodd gymhwyster sy'n gysylltiedig â chyflogaeth	25	42
% o gleientiaid ardrethu prosiect yn rhagorol neu'n dda iawn	90%	100%
<b>Cymunedau Ffyniannus - Lleihau diweithdra ymhlith pobl ifanc ac ymddieithriad</b>		
Nifer y bobl sy'n gwirfoddoli'n rheolaidd fel llwybr i gyflogaeth	10	18
Nifer y bobl a sicraodd Leoliad Twf Swyddi Cymru	10	9
Nifer y bobl a enillodd gymhwyster sy'n gysylltiedig â chyflogaeth	40	29
% o gleientiaid ardrethu prosiect yn rhagorol neu'n dda iawn	90%	100%
<i>Mae lleihau diweithdra ymysg pobl ifanc yn dibynnu i raddau helaeth ar argaeledd Twf Swyddi Cymru. Eleni 'roedd LIC yn hwyr iawn yn dechrau'r broses a chollwyd 6 mis o gyflawni gan na ddechreuodd y Rhaglen tan Hydref 2015.</i>		
<b>Cymunedau Ffyniannus - Hyrwyddo cynhwysiad digidol</b>		
Nifer y bobl a enillodd sgiliau TG sylfaenol	75	34
% o gleientiaid ardrethu prosiect yn rhagorol neu'n dda iawn	90%	100%
<i>Mae'r targedau ar gyfer cynhwysiad digidol wedi bod yn anodd iawn i'w cyflawni. Datblygwyd unedau Agored newydd i fynd i'r afael â'r mater hwn a fydd yn cael eu</i>		

<i>cyflawni o 1 Ebrill.</i>		
<b>Cymunedau Ffyniannus - Gwella gallu ariannol, rheoli dyled a chodi incwm</b>		
Nifer y bobl a agorodd gyfrif gydag Undeb Credyd	60	55
Nifer y bobl a gafodd fenthyciad gan Undeb Credyd	60	94
Nifer y plant gyda gwell llythrennedd / gallu ariannol	105	228
% o gleientiaid ardrethu prosiect yn rhagorol neu'n dda iawn	90%	100%
<b>Cymunedau Ffyniannus - Cefnogi menter, bancio amser ac adeiladu cyfalaf cymdeithasol</b>		
Nifer y mentrau a gefnogwyd i gychwyn busnes	12	9
Nifer y mentrau cymdeithasol a ddechreuwyd	2	2
Nifer y bobl sy'n dechrau hunan gyflogaeth	3	3
% o gleientiaid ardrethu prosiect yn rhagorol neu'n dda iawn	90%	100%
<b>Cymunedau Ffyniannus - Lleihau'r risg o droseddau gan bobl ifanc</b>		
Nifer y bobl ifanc a gymerodd ran mewn gweithgareddau cadarnhaol yn rheolaidd	100	75
Nifer y bobl ifanc a enillodd gymhwyster allgyrsiol	45	38
% o gleientiaid ardrethu prosiect yn rhagorol neu'n dda iawn	90%	99%
<i>Targedwyd grwpiau ifanc penodol a dyna pam mae'r niferoedd yn is na'r disgwyl. Rhaid i'r bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgaredd positif rheolaidd o leiaf ddwywaith yr wythnos am nifer o wythnosau cyn y gellir eu cyfrif ac mae'n anodd iawn cynnal yr ymgysylltiad i'r lefel honno. Bydd Caffi Ieuencid newydd 'The Pod' yn agor yn y gwanwyn a ddylai helpu i gynnal lefelau ymgysylltu.</i>		
<b>Cymunedau Dysgu - Dysgu gydol oes mewn cymunedau</b>		
Nifer y bobl a enillodd gymhwyster	86	100
Nifer y bobl a gymerodd ran mewn cynlluniau gwirfoddoli i ddysgu	40	47

% o gleientiaid ardrethu prosiect yn rhagorol neu'n dda iawn	90%	100%
<b>Cymunedau Dysgu - Gwella sgiliau bywyd oedolion</b>		
Nifer y bobl a enillodd gymhwyster	40	57
% o gleientiaid ardrethu prosiect yn rhagorol neu'n dda iawn	90%	100%
<b>Cyfanswm cronol ESGYN ers dechrau'r rhaglen ar 1 Ionawr 2014</b>		
Hyfforddiant galwedigaethol		135
Lleoliadau gwaith		87
Paratoi ar gyfer cyflogaeth lawn amser		61
I waith		85



**REGISTERED COMPANY NUMBER: 08085673 (England and Wales)**  
**REGISTERED CHARITY NUMBER: 1148502**

# **ATODIAD 4 / APPENDIX4**

**REPORT OF THE TRUSTEES AND  
FINANCIAL STATEMENTS FOR THE YEAR  
ENDED 31 MARCH 2015  
FOR**

**CYMUNEDAU'N GYNTAF MON  
COMMUNITIES FIRST**

**CONTENTS OF THE FINANCIAL STATEMENTS  
FOR THE YEAR ENDED 31 MARCH 2015**

---

	Page
Report of the Trustees	1 to 7
Report of the Independent Auditors	8 to 9
Statement of Financial Activities	10
Balance Sheet	11
Notes to the Financial Statements	12 to 21

**CYMUNEDAU'N GYNTAF MON COMMUNITIES FIRST**

**REPORT OF THE TRUSTEES  
FOR THE YEAR ENDED 31 MARCH 2015**

---

The trustees who are also directors of the charity for the purposes of the Companies Act 2006, present their report with the financial statements of the charity for the year ended 31 March 2015. The trustees have adopted the provisions of the Statement of Recommended Practice (SORP) 'Accounting and Reporting by Charities' issued in March 2005.

**REFERENCE AND ADMINISTRATIVE DETAILS**

**Registered Company number**

08085673 (England and Wales)

**Registered Charity number**

1148502

**Registered office**

63 Market Street  
Holyhead  
Ynys Mon  
LL65 1UN

**Trustees**

J N Lee, M.B.E	
Mrs V M Roberts	- resigned 27.11.14
Mrs A Kennedy	
Mrs J A Blackwell	
Mrs K Capstick	
K Thomas	
Mrs S F Williams	
J N Lock	
J Tyrell-Jones	
J G H Cave, M.B.E	- resigned 27.11.14
R Burnell	- resigned 27.11.14
Dr W H Roberts	- appointed 7.1.15
R Williams	- appointed 8.4.15
J L Lee	- appointed 27.4.15

**Company Secretary**

Mrs T J Stokes

**Auditors**

Williams Denton Cyf  
Chartered Certified Accountants  
Statutory Auditors  
Glaslyn Ffordd Y Parc  
Parc Menai  
Bangor  
Gwynedd  
LL57 4FE

**Solicitors**

T R Evans Hughes & Co  
6 Victoria Chambers  
Holyhead  
LL65 1UR

**REPORT OF THE TRUSTEES  
FOR THE YEAR ENDED 31 MARCH 2015**

---

**REFERENCE AND ADMINISTRATIVE DETAILS**

**Bankers**

HSBC  
William Street  
Holyhead  
LL65 1RL

**Senior Management Team**

Rita Lyon	Cluster Manager
Alun Roberts	Prosperous Communities Co-ordinator
Colin Lyon	Learning Communities Co-ordinator
Ian Hughes	Finance and Monitoring Officer

**STRUCTURE, GOVERNANCE AND MANAGEMENT**

**Governing document**

The organisation is a charitable company limited by guarantee and governed by its Memorandum of Association dated 28 May 2012. It was registered with the Charity Commission on 09 August 2012. In the event of the company being wound up members are required to contribute an amount not exceeding £10.

**Recruitment and appointment of new trustees**

The Cymunedau'n Gyntaf Mon Communities First is made up from the community/statutory and business/voluntary sector representatives.

The process of appointing trustees/directors has been set out in the Memorandum and Articles and is as follows:

The charity may by ordinary resolution appoint a person who is willing to act to be trustee/director and determine the rotation in which any additional trustees/directors are to retire. No person other than a trustee/director retiring by rotation may be appointed a trustee/director at any general meeting unless he or she is recommended for re-election by the trustees/directors, or not less than fourteen nor more than thirty-five clear days before the date of the meeting, the charity is given a notice that is signed by a member entitled to vote at the meeting, states the member's intention to propose the appointment of a person as a trustee/director, contains the details that, if the person were to be appointed, the charity would have to file at Companies House, and is signed by the person who is to be proposed to show his or her willingness to be appointed. The trustees/directors may appoint a person who is willing to act to be a trustee/director. A trustee/director appointed by a resolution of the other trustees/directors must retire at the next annual general meeting and must not be taken into account in determining the trustees/directors which are to retire by rotation.

All members who are entitled to receive notice must receive a minimum of twenty-one clear days notice of an annual general meeting or a general meeting called for the passing of a special resolution. Fourteen clear days must be given for all other general meetings.

A trustee/director must be a natural person aged 16 years or older. No one may be appointed a trustee/director if he or she would be disqualified from acting under the provisions of article 39. The number of trustees/directors shall be a minimum of 10 but (unless otherwise determined by ordinary resolution) shall not be subject to any maximum. The first trustees/directors shall be those persons notified to Companies House as the first trustees/directors of the charity. A trustee/director may not appoint an alternate trustee/director or anyone to act on his or her behalf at meetings of the trustees/directors.



**REPORT OF THE TRUSTEES  
FOR THE YEAR ENDED 31 MARCH 2015**

---

**STRUCTURE, GOVERNANCE AND MANAGEMENT**

**Induction and training of new trustees**

Existing trustees are already familiar with the practical work of the charity having been members of the charity and attended most meetings. All new trustees are offered relevant and specific training.

Additionally, new trustees are invited and encouraged to attend training sessions to familiarise themselves with the charity and the context within which it operates.

Trustees should look to develop arrangements which enable people from all sections of the community to be actively involved in the selection and regular renewal of their membership.

Trustees should also help to prepare, with the assistance if need be of external support organisations (eg the local authority, the county voluntary council, the Communities First Support Network), a constitution and rules of conduct for consideration and approval by the charity. Trustees should provide support to local community organisations/groups to enable them to join the charity and contribute to its work.

Mr James Neil Lee received an M.B.E from his Royal Highness the Prince of Wales for outstanding services to the community.

The directors attended a Governance and Financial Management Advice training course held by Shirley David of Best UK, where she also produced a report highlighting areas of weakness within the organisation's governance and her recommendations.

**Organisational structure**

The Cymunedau'n Gyntaf Mon Communities First has a Board of Directors /Trustees of at least 10 members who meet a minimum of four times a year and are responsible for the strategic direction and policy of the charitable company. The Cluster manager also sits on the Board but has no voting rights.

The Senior Management team are responsible for the day-to-day operational management including individual supervision of the staff team and also for ensuring that the team continue to develop their skills and working practices in line with good practice. The Senior Management team is responsible for ensuring the delivery of the services specified and that key performance indicators are met. The Senior Management team are line managed by the Chair of the personnel group.

**Related parties**

